

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI 2022/2023

CYNNWYS

GWYBODAETH	2
GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL	3
Y CORFF LLYWODRAETHOL	5
STAFF	7
ADRODDIAD 2022/23	9
DYDDIADAU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2022/23	12
DATGANIADAU ARIANNOL LLAWN 2021/22	13
GAIR I GLOI	15

GWYBODAETH

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Nifer y disgyblion ar y gofrestr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2022/23 oedd 176.

Cyfeiriad
18 Stryd Rhosmaen, Llandeilo SA19 6LU

Ffôn
(01558) 823489

Ebost
admin@teilosant.ysgolccc.cymru

Gwefan
ysgolteilosant.cymru

GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae'n bleser cael paratoi gair neu ddau fel cyflwyniad i'r Adroddiad Blynyddol eleni eto. Mae'r flwyddyn diwethaf wedi hedfan heibio gyda sawl uchafbwynt amlwg, ac ymhlith rheiny oedd gweld cymaint o ddisgyblion yr ysgol yn serennu ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri mewn amryw weithgareddau. Llongyfarchiadau!

Bydd rhai ohonoch chi'n cofio i mi sôn yn Adroddiad llynedd am yr her ariannol sydd yn gwynebu pawb ar hyn o bryd, o deuluoedd unigol, i'r Gwasanaeth Iechyd, Awdurdodau Lleol, ac wrth gwrs, ysgolion. Fe welwch chi bod Adroddiad Ariannol yr ysgol am 2022-23 a'r swm sydd yn cario drosodd i 2023-24 yng nghlwm wrth yr Adroddiad hwn. Mae'r Adroddiad yn dangos roedd gan yr ysgol £81K wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar Fawrth 31 2023 - 6 mis yn ôl bellach. Mae'r lleihad yn y swm wrth gefn i'w gymharu â llynedd oherwydd bod carfan mawr o ddisgyblion wedi gadael ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ac oherwydd nad ydym wedi derbyn cymaint o grantiau ag oedd yn arferol yn ystod Covid. Fe wnaethom ni hefyd y penderfyniad i fuddsoddi'n drwm i gynnal lefelau staffio uchel yn ystod y cyfnod Covid ac ôl Covid. Erbyn hyn nid yw'r sefyllfa hynny'n gynnaladwy. Heb unrhyw weithredu, byddai'r ysgol mewn diffyg erbyn diwedd y flwyddyn. Er mwyn dod i'r afael â'r sefyllfa derbyniodd rhai Cynorthwywyr Cynnal Dysgu (CCD) setliad diswyddo gan yr Awdurdod Lleol ar ddiwedd tymor yr haf. Mae hynny'n golygu bod y CCD sydd yn weddill yn datblygu sgiliau i helpu mwy o ddysgwyr ar draws yr ystod oedranau, fel sydd yn arferol mewn ysgolion eraill o'r un maint a ninnau.

Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn parhau i fod yn flaenllaw wrth gynllunio i'r dyfodol, ac mae'ch cefnogaeth chi i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon (GRhA) wrth iddynt godi arian mewn amryw ddigwyddiadau yn parhau i fod yn hynod bwysig. Mae'n dyled i'r Gymdeithas Rieni wrth iddynt gynllunio rhaglen o weithgareddau cymdeithasol i'n diddannu a chodi arian i gefnogi'r ysgol a'n plant, yn fawr. Mae'r GRhA wedi buddsoddi mewn prynnu baneri er mwyn cynyddu pa mor weledol yw'r ysgol mewn digwyddiadau lleol, a'r nod yw cynyddu proffil yr ysgol er mwyn denu mwy o blant i'r ysgol, a gobeithio allwch chi helpu i ledaenu'r neges am lwyddiant yr ysgol hefyd.

Mae'r gwaith cynnal a chadw o amgylch y safle yn parhau, gyda'r Llywodraethwyr yn defnyddio arbenigedd aelodau'r Corff i sicrhau bod y safle a'r adnoddau yn ddiogel ac yn addas i bwrpas.
Fel sy'n arferol, mae brwdfrydedd y disgyblion ac egni ein staff wedi bod yn ysbrydoliaeth a gobeithio wnaethoch chi fel rhieni fanteisio ar y cyfle i ymweld â'r ysgol yn y nosweithiau agored diweddar. Mae'r Llywodraethwyr hefyd wedi cael cyfle i fynychu Teithiau Dysgu i weld yr ysgol ar waith yn ystod diwrnod arferol, a ni'n hapus iawn gyda'r profiadau mae'r disgyblion yn eu cael. Edrychwn ymlaen eto eleni at weld ffrwyth llafur y disgyblion a'r staff ar lwyfanau, caeau chwarae, mewn llyfrau gwaith ac yn y gymuned yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, gan ddechrau yng Ngwyl y Synhwyrau ac yn y Gwasanaeth Nadolig.

Diolch i'r holl staff sydd yn cadw'n plant yn ddiogel o ddydd i ddydd a dymuniadau gorau i bawb o deulu'r ysgol am weddill y flwyddyn academaidd.

Tim Hayes
Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Teilo Sant.

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL AR 31/08/2022

Enw	Statws	Dyddiad Terfynu
Mr Tim Hayes - Cadeirydd	Cynrychiolydd Cymunedol	23/11/2025
Mrs Carys Davies – Is-Gadeirydd (tymor yr Hydref)	Rhiant Lywodraethwr	31/12/2024
Mr Rob Walters – Is-Gadeirydd (tymor y gwanwyn)	Cynrychiolydd Cymunedol	09/02/2026
Mr Emyr Davies– Is-Gadeirydd (tymor yr haf)	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	31/03/2027
Mrs Ellen Llewellyn	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	22/03/2025
Mr Ioan Jones	Pennaeth	Parhaol
Mr Owain Gruffydd	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	14/07/2024
Mr Jonathon Davies	Rhiant Lywodraethwr	23/01/2026
Mrs Naomi Williams	Rhiant Lywodraethwr	26/01/2025
Mrs Catrin Small	Cynrychiolydd Cymunedol	09/04/2023
Mrs Mared Williams	Rhiant Lywodraethwraig	02/12/2025
Mr Llŷr Davies	Cynrychiolydd Cymunedol	28/06/2027
Y Cynghorydd Rob Jones	Cynrychiolydd Cymunedol	17/03/2023
Y Cynghorydd Christoph Fischer	Cynrychiolydd Cymunedol Ychwanegol	12/03/2027
Mr Aled Prytherch	Staff Dysgu	10/10/2024
Mrs Elen Donath	Staff Dysgu	20/12/2025
Ms Lowri Jones	Staff heb fod yn Dysgu	24/09/2027

CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mr Tim Hayes
d/o Ysgol Gymraeg Teilo Sant
18 Stryd Rhosmaen
Llandeilo
SA19 6LU
timothy.hayes@bromyrddin.org

CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Ceir trawstoriad o'r gymuned leol ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol ac fe etholir y Cadeirydd ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r Corff Llywodraethol llawn yn cyfarfod unwaith bob tymor ac mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w trafod sy'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd a materion staffio, ayb. Mae gan y Corff Llywodraethol dri is-bwyllgor sydd hefyd yn cwrdd yn dymhorol neu'n amlach os oes galw, sef:

- Is-bwyllgor Cyllid, Staffio ac Adeilad (Cadeirydd: Mr Emyr Davies)
- Is-bwyllgor Dysgu ac Addysgu (Cadeirydd: Mr Tim Hayes)
- Is-bwyllgor Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Cadeirydd: Mrs Naomi Williams)

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn aelodau ar o leiaf ddau o'r Is-bwyllgorau uchod yn unol â'u profiad ac arbenigedd.

COSTAU LLYWODRAETHWYR

Ni hawliwyd costau gan unrhyw Lywodraethwr yn 2022/23.

RHIANT LYWODRAETHWYR

Pan fod angen ethol rhiant lywodraethwyr, dosberthir ffurflenni ethol i bob rhiant yn yr Ysgol a lle ceir mwy nag un enwebiad cynhelir etholiad. Rhieni sy'n enwebu ac ethol rhiant lywodraethwyr.

CYFARFODYDD

Ni chynhelir cyfarfod blynyddol i rieni bellach, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri chyfarfod bob blwyddyn trwy gyflwyno deiseb gyda 10% o rieni'r ysgol yn arwyddo'r ddeiseb a nodi pam maent eisiau cynnal cyfarfod. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfod gyda rhieni o dan adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ystod y cyfnod dan sylw.

CWYNION

Mae gan yr Ysgol bolisi cwynion a gweithredir yn unol â'r polisi hwn. Gellir cael copi o'r polisi o'r ysgol neu o wefan yr ysgol.

POLISÏAU

Cafodd nifer o bolisïau eu hadolygu a'u diweddaru gan y corff llywodraethol yn ystod y cyfnod dan sylw ac mae'r rhain i'w gweld ar y wefan yr ysgol. Gellid cysylltu â'r swyddfa am unrhyw bolisïau eraill.

CYSYLLTU

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, mae croeso i chi ysgrifennu at y Cadeirydd trwy lythyr i swyddfa'r ysgol neu e-bost. Croesawn eich cyfraniad bob amser.

STAFF

(Cywir ar 31/08/2023)

PENNAETH

Mr Ioan Jones

PENNAETH CYNORTHWYOL

Mrs Maureen Williams

ATHRAWON

Mr Aled Prytherch (Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli) (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol)
Mrs Elen Donath
Mrs Emily Pugh (Athrawes dros gyfnod mamolaeth Mrs Sara Jones)
Miss Nia Davies
Mrs Siwan Roberts (Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli)

CYNORTHWYWR DOSBARTH

Mrs Andrea Evans
Mrs Avril Desvaux de Merigny
Mrs Heather Davies
Mrs Meryl Thomas
Mrs Nerys Davies
Mrs Nerys Howell

ATHRAWON PERIPATETIG

Mrs Angharad Morgan (Ffidl)
Mr Alex McGee (Pres)
Mrs Nia Clwyd (Canu)
Mr Richard Walters (Gitâr)
Mr Andy Jackson (Chwythbrennau)

SWYDDOG GWEINYDDOL

Miss Lisa Roberts

CLERC I'R CORFF LLYWODRAETHOL

Mrs Lynwen Davies (Cyngor Sir Gâr)

GOFALYDD

Mrs Eirwen Spencer
Mr Wyn Harris (Cynnal tir yr ysgol)

GLANHAWYR

Ms Danielle Donolly
Mrs Eirwen Spencer

CYNORTHWYWYR AWR GINIO

Ms Danielle Donolly
Mrs Elaine Roberts
Miss Samantha Dyer
Mr Wyn Harris
Cynorthwywyr Dosbarth

ADRODDIAD 2022/23

CATEGORI IAITH A'R DEFNYDD O'R GYMRAEG GAN DDISGYBLION

Ysgol Gymraeg yw Teilo Sant, ac felly Cymraeg yw iaith yr Ysgol o ddydd i ddydd. Y nod yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoed er mwyn eu galluogi i fod yn aelod cyflawn o gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu'r ysgol, a chynhelir gwasanaethau a gweithgareddau ysgol yn bennaf yn y Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith â'r llall.

DISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Caiff y disgyblion hyn gymorth da a phriodol o fewn yr ysgol gan gynorthwywyr profiadol. Mae'r oriau o gymorth a dderbyniant yn amrywio yn unol â'u anghenion unigol. Darperir Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer holl ddisgyblion Gweithredu Ysgol a Mwy yr ysgol ac adolygir y rhain yn dymhorol.

NEWIDIADAU I'R PROSBECTWS

Mae newidiadau i Staff, Llywodraethwyr, Cymdeithas Rieni ac Athrawon yn cael eu gwneud yn ôl yr angen.

IECHYD A DIOGELWCH

Rydym yn dilyn trefniadau diogelwch tynn yn ddyddiol. Rydym yn dilyn cyfarwyddyd oddi wrth yr awdurdod lleol pa bai unrhyw bryderon yn codi.

CYFLEUSTERAU'R TOILEDAU

Mae toiledau ar gyfer pob dosbarth. Darperir sebon a phapur sychu dwylo gyda hylif di-heintio tu allan i bob tŷ bach. Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol.

BWYTA AC YFED YN IACH

Mae ffynnon ddŵr wedi'i lleoli ar bwys yr ystafell athrawon sy'n caniatáu mynediad at ddŵr yfed i'r disgyblion. Mae'r plant yn cael eu hybu i fwyta'n iach ac mae bwydlen cinio ysgol yn unol â darpariaeth bwyta'n iach yr Awdurdod Lleol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd bod yn iach fel rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol.

CWRICWLWM

Fel cymuned ysgol rydym yn darparu addysg o ansawdd uchel gan sicrhau profiadau addysgiadol cyfoethog er mwyn datblygu'r disgybl cyflawn. I wneud hyn rydym yn datblygu'r pedwar diben fel edafedd aur trwy holl weithgarwch yr ysgol er mwyn rhoi'r cyfle i bob plentyn ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Defnyddir fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol cenedlaethol er mwyn datblygu sgiliau'r dysgwyr gan ddatblygu eu dealltwriaeth a gwybodaeth yn draws gwricwlaidd. Gwneir hyn trwy ddilyn themâu gan gynnwys llais y disgyblion ar y daith o gynllunio ar gyfer y chwe maes dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd, sef:

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol

Rydym yn asesu a thracio cynnydd disgyblion ym mhob agwedd o'u gwaith gan ddarparu adborth adeiladol i ddisgyblion ar eu cyrhaeddiad a chyfleoedd pwrpasol iddynt ymateb i adborth yr athrawon er mwyn gwella eu gwaith a'u cyrhaeddiad. Addysgir disgyblion yr ysgol fesul blwyddyn yn ôl eu hoedran.

CYNLLUN DATBLYGU'R YSGOL

Fel ysgol rydym yn ymwneud â phroses o hunan arfarnu cyson o ran pwyso a mesur beth sydd yn gweithio'n dda a'r hyn sydd angen gwella. Yn dilyn y broses yma rydym yn gweithio ar Gynllun Datblygu Ysgol, dogfen fyw sy'n cael ei gweithredu'n barhaol trwy'r flwyddyn. Mae'r ddogfen yn nodi ble ydyn ni ar hyn o bryd, yr hyn sydd angen gwella, sut, ac yna mesur yr effaith.

PRIF FLAENORIAETHAU 2022/23

1. I ddatblygu ymhellach systemau cynllunio ac asesu newydd gan werthuso ar hyd y daith i sicrhau cynnydd da yn y medrau allweddol ar draws y MDaPh.
2. Anghenion Dysgu Ychwanegol - Sicrhau bod y ddarpariaeth gyffredinol /unigol yn datblygu medrau allweddol y dysgwyr.
3. Blaenoriaeth 3: Datblygu rhaglen lles (TIS) ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad gorau posibl i gwricwlwm yr ysgol.
4. Cryfhau ymhellach gapasiti arweinyddiaeth yr ysgol a rôl yr arweinwyr o fewn rhaglen hunan arfarnu gynhwysfawr.
5. Codi safonau rhifedd a sicrhau bod holl sgiliau MDaPh a'r fframwaith rhifedd a mathemateg yn cael eu haddysgu drwy ddefnyddio rhaglen gynhwysfawr Big Maths

PRIF FLAENORIAETHAU 2023/2024

1. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer mathemateg i sicrhau bod Athrawon yn Datblygu medrau rhesymu a datrys problemau disgyblion yn systematig ac yn gallu eu cymhwyso mewn cyd destunau mwy perthnasol ac heriol yn draws gwricwlaidd.
2. Datblygu medrau ysgrifennu creadigol ac estynedig disgyblion yn gydlynol ar draws yr ysgol
3. Gwella rôl strategol holl gynghorau'r ysgol a llais y disgybl drwy edrych ar hawliau plant

PRESENOLDEB YN YSGOL GYMRAEG TEILO SANT 2022/23

Yn arferol gosodir targed o 95% neu' uwch ar gyfer presenoldeb ysgol gyfan gan y Corff Llywodraethol. Mae polisi wedi ei fabwysiadu a'i adolygu sy'n amlinellu'r camau sydd i'w cymryd gan yr ysgol mewn cydweithrediad â'r Swyddog Lles Addysg i geisio cyrraedd at y targed hwn ac i leihau absenoldebau heb eu hawdurdodi. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â rhieni i ofyn am eglurhad am unrhyw absenoldeb sydd heb ei awdurdodi, gan gael gwared â'r cod N yn y gofrestr. Canran presenoldeb cyffredinol 2022/23 oedd 93%.

POLISI AMDDIFFYN PLANT

Mae gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yw Mr Ioan Jones a Mrs Maureen Williams. Mae aelod dynodedig o'r corff llywodraethol hefyd â chyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant.

BLAS O WEITHGAREDDAU'R YSGOL

Darparwyd y profiadau isod gan staff yr ysgol ac aelodau'r gymuned ehangach ar gyfer ein disgyblion.

- Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Sant Teilo
- Ymweliad Network Rail – diogelwch y rheilffyrdd
- Boom plant – Ffilmio fideo Cwpan y byd
- Ymweliad PC Trystan, nyrs yr ysgol a'r frigad dân
- Disgo Calan Gaeaf
- Sesiynau gemau buarth gan Fenter Dinefwr
- Jambori Yr Urdd Cwpan y Byd pêl-droed
- Gŵyl y Synhwyrau yn Llandeilo
- Cystadlaethau'r Urdd (Perfformio, Celf, Chwaraeon a Choginio)
- Côr yn canu yn Ffair Nadolig Dinefwr
- Cwis Llyfrau Cymru
- Ymweliad Siani Sionc
- Trip preswyl Abernant
- Ffair Nadolig
- Dawnsio gyda Ebony Menter Dinefwr
- Diwrnod dathlu 50 mlynedd
- Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi
- Gweithgareddau awyr agored yn ysgol Bro Dinefwr
- Mabolgampau
- Talent Teilo
- Ffair Hâf

PROFIADAU CHWARAEON

- Hyfforddiant i'r Llysgenhadon
- Traws Gwlad Actif ac ysgolion Sir Gâr
- Sesiynau rygbi gan Dannika o'r Scarlets
- Rygbi'r Urdd
- Gwersi Nofio
- Pêl-droed yr Urdd a chlwb pêl-droed Abertawe

- Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd
- Cystadleuaeth criced yr Urdd

CODI ARIAN

Bore coffi Macmillan, codwyd £312.80.
Plant mewn angen- codwyd £291.50
Diwrnod gwisgo coch i Eisteddfod Llanymddyfri – codwyd £160.50
Diwrnod siwmperi Nadolig (Save the Children) -codwyd £187.50

LLWYDDIANNAU

- Cawsom lwyddiant gyda Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig gan ennill gwobr treftadaeth, a rhodd o £300.00 am brosiect cyfansoddi cân i ddathlu 50 mlynedd er sefydlu'r ysgol ar y safle presennol.

- Gwnaethom ennill gwobr 'Cam 4' Cynllun Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin.

DYDDIADAU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2023/25

Dyddiadau tymhorau a gwyliau / Term and school holiday dates

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

DATGANIAD ARIANNOL LLAWN 2021/22

Gwelir isod grynodeb o sefyllfa ariannol yr ysgol ar gyfer 2022/23 (hyd 31/03/2023)

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2022/23.	£	Please see below a summary of your school's final outturn position for 2022/23.
Gwariant Net 2022/23	746,989	Net Expenditure 2022/23
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2022/23	-649,855	Formula Funding Allocation 2022/23
Arian Wrth Gefn a Ddygwyd Ymlaen o 2021/22	-178,575	Surplus Brought Forward from 2021/22
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i 2023/24	-81,441	Surplus Carried Forward to 2023/24

Grantiau / Grants

Prif Grantiau / Main Grants

Enw'r Grant / Grant Name	Côd Swydd / Job Code	Dyraniad 2022/23 Allocation £	Gwariant / Expenditure £
Cyfnod Sylfaen/ Foundation Phase	039297	-52,650	79,520
GDD / PDG	050337	-8,050	10,865
GDDBC/ EYPDG	050838	-2,300	6,752
GDD – Ysgolion heb PYDd / PDG – Schools with no FSM	050588	0	0
GGA / EIG	050545	-9,222	9,373
Grant Lleihau Maint Dosbarth Babanod / Infant Class Size Reduction Grant	050583	0	0
Dysgu Proffesiynol / Professional Learning	050590	-4,015	4,183
Rhaglen Dysgu Carlam / Accelerating Learning Programme	050629	-18,542	24,254
Ethnig Leiafrifol Sipsi Roma Teithwyr / Minority Ethnic Gypsy Roma Traveller	050635	0	0
Saesneg Iaith Ychwanegol / English Additional Language	050636	-105	105

Grantiau Eraill / Other Grants

Enw'r Grant / Grant Name	**Côd Swydd / Job Code**	**Dyraniad / Allocation** **£**
Grant Codiad Cyflog Athrawon / Teachers' Pay Award Grant	050591	-7,548
Grant Fferm Wynt Brechfa / Brechfa Wind Farm Grant	050651	0
Grant Trochi Hwyr / Late Immersion Grant	050675	0
Bwyd a Hwyl / Food and Fun	050743 / 050745	0
ADY / ALN	050763	-2,619
Cwricwlwm i Gymru / Curriculum for Wales	050765	-1,782
Dysgu Digidol / Digital Learning	050766	-180
GDD PDG/ PDG LAC	050962	0

GAIR I GLOI

Wrth i mi fyfyrio ar fy mlwyddyn gyntaf fel Pennaeth Ysgol Gymraeg Teilo Sant, rwy'n llawn balchder wrth feddwl am lwyddiannau'r flwyddyn. Mae'r croeso cynnes a gefais gan holl gymuned yr ysgol wedi gwneud y flwyddyn gyntaf yn un pleserus iawn.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn arbennig wrth i ni ddathlu hanner canmlwyddiant ers sefydlu Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn ei hadeilad presennol. Anrhydeddwyd hanes a thraddodiadau cyfoethog ein hysgol yn ystod y garreg filltir hon, gan ddod â myfyrwyr, staff, a rhieni ynghyd mewn ysbryd o undod a balchder. Uchafbwynt y dathliadau oedd gweld y disgyblion o dan arweiniad Mrs Donath yn cyfansoddi cân i ddathlu'r achlysur.

Bu'n rhaid ffarwelio gyda rhai aelodau o'r staff eleni a hoffwn gydnabod a diolch iddynt am eu hymroddiad i'r ysgol dros y blynyddoedd. Rydym yn ddiolchgar am yr effaith barhaol y maent wedi cael ar fywydau ein disgyblion.

Cawsom flwyddyn o ddathliadau a pherfformiadau wrth ddathlu llwyddiant Cymru yn cyrraedd Cwpan y Byd pêl-droed a hyfryd oedd croesawi Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd i Llanymddyfri. Roedd gweld cynifer o ddisgyblion yn cystadlu mewn cystadlaethau amrywiol, yn ogystal â'r rhai a ddangosodd eu doniau ym mherfformiadau Chwilio'r Chwedlau a chôr yr Urdd, wedi fy llenwi â balchder aruthrol. Diolch i'r holl staff a rhieni am gefnogi'r plant yn ystod yr holl ymarferion a pherfformiadau.

Hoffwn fynegi fy niolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu hymdrechion diflino i godi arian. Mae'r arian a godwyd wedi ein galluogi i wneud gwelliannau i adeilad ein hysgol a chyfoethogi profiadau cyffredinol ein disgyblion. Rrwy'n gyffrous am yr effaith gadarnhaol y bydd y gwelliannau hyn yn ei chael ar amgylchedd dysgu ein disgyblion.

Hoffwn ddiolch i'n haelodau staff ymroddedig sy'n sicrhau bod Ysgol Teilo Sant yn darparu'r profiad ysgol gorau posib i'n disgyblion. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr eu hymrwymiad a'u cefnogaeth.

Diolch i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn. Mae eich hymrwymiad wedi cyfrannu'n sylweddol at ein cyflawniadau a'n twf.

Yn olaf, estynnaf fy ngwerthfawrogiad diffuant i chi, y rhieni a gwarwidwaid, am eich cefnogaeth. Mae eich haelioni a'ch parodrwydd i gefnogi digwyddiadau'r ysgol, eich ymgysylltiad ag addysg eich plant, a'ch ymrwymiad i adeiladu cymuned gref yn gwneud Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn le arbennig.

Wrth i ni edrych ymlaen at y dyfodol, rwy'n hyderus, gyda chydweithrediad a chefnogaeth barhaus ein cymuned ysgol wych, y bydd Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn mynd o nerth i nerth. Diolch am flwyddyn gyntaf wych, a dyma i lawer mwy o flynyddoedd hapus a llwyddiannus.

Ioan Jones
Pennaeth